**Dyddiad:** **2 Gorffenaf 2003**
**Amser:** **9.00 – 12.05**
**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

## ADRODDIAD Y GWEINIDOG DROS DDIWYLLIANT, Y GYMRAEG A CHWARAEON

### BIENNALE FENIS

Gellid dadlau mai'r Biennale yw'r digwyddiad pwysicaf yng nghalendr y celfyddydau cyfoes. Mae Cymru'n cymryd rhan am y tro cyntaf yn 2003. Biennale Celf Fenis 2003 yw'r 50fed o'i bath ac felly mae'n ddigwyddiad hanesyddol i'r Biennale ac i Gymru hefyd.

Bûm yn lansio Pafiliwn Cymru ar ddydd Iau 12 Mehefin. Daeth llawer iawn o bobl i'r lansiad ac mae'r arddangosfa (ac yn arbennig y chwilolau gan Cerith Wyn Evans) wedi denu sylw cyfryngau'r byd. Bellach mae dros 200 o bobl yn ymweld â'r arddangosfa bob dydd.

Ar ddydd Gwener y 13eg , bûm yn ymweld â Phafiliwn Prydain a rhai o'r arddangosfeydd cenedlaethol eraill. Gallaf ddweud gydag argyhoeddiad bod arddangosfa Cymru ymysg y gorau yno.

Cyngor Celfyddydau Cymru yw'r prif gorff sy'n ariannu ond mae'r Cynulliad hefyd wedi cyfrannu arian yn uniongyrchol. Bydd presenoldeb Cymru yn y Biennale yn costio tua £200,000. Mae'r arddangosfa yn parhau tan fis Tachwedd.

Mae Pafiliwn Cymru wedi ei leoli mewn man canolog ar ynys Guidecca, siwrnai pum munud ar y bws dŵr o San Marco. Cyn fragdy Dreher yw'r adeilad ac fe'i adnewyddwyd er mwyn ei ddefnyddio fel Oriel. Yn Biennale 2001 yr Ex Birreria oedd lleoliad arddangosfa lwyddiannus iawn gan Mike Nelson, sef *The Deliverance and the Patience*, ac mae llawer o bobl yn gyfarwydd â'r Oriel o ganlyniad.

Celfyddydau Rhyngwladol Cymru (WAI) sy'n cynnal Cymru yn Biennale Fenis (mae'r WAI yn barteriaeth rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru a'r Cyngor Prydeinig). Michael Nixon yw Comisiynydd yr Arddangosfa a Patricia Fleming yw'r Curadur. Gwnaeth Pwyllgor Llywio, dan gadeiryddiaeth Mike Tooby, Cyfarwyddwr yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol, sefydlu presenoldeb swyddogol cyntaf Cymru yn y Biennale, a'r Pwyllgor fu'n arwain o ran dewis yr artistiaid. Paul Seawright, Cerith Wyn Evans, Simon Pope a Bethan Huws yw'r artistiaid.

### AGOR CANOLFAN NEWYDD I YMWELWYR YNG NGHASTELL CAERFFILI

Ar fore'r 9fed o Orffennaf byddaf yn agor yn ffurfiol ganolfan newydd i ymwelwyr yng Nghastell Caerffili. Mae'r ganolfan wedi bod ar agor ers rhai misoedd bellach ac mae croeso mawr i'r cyfleusterau, sydd wedi'u gwella'n

sylweddol, gan mai dyma drydedd safle fwyaf poblogaidd Cadw gyda rhyw 80,000 o ymwelwyr y flwyddyn - a nifer o'r rheini yn ymwelwyr o dramor. O ran maint, y castell a'i safle yw'r mwyaf yng Nghymru a chaiff ei ystyried ochr yn ochr â Windsor a Dover ymysg cestyll mwyaf Prydain.

**ADOLYGU ARIAN Y LOTERI**
Yn dilyn yr Adolygiad o Arian Loteri ledled y DU, bydd Tessa Jowell yn cyhoeddi Papur Gwyn yfory sy'n nodi'r cynigion i wella'r trefniadau ar gyfer dosbarthu arian loteri. Dylid canolbwyntio ar symleiddio cyllid a'i gwneud yn haws i gymunedau lleol a'r sector gwirfoddol gael gafael arno - dyma prif fyrdwn y cynigion hyn, ac rwyf yn eu croesawu'n fawr.

Er bod y rhan fwyaf o'r cynigon yn y Papur Gwyn yn argymhellion cadarn, ceir meysydd sylweddol eraill ar gyfer ymgynghori ymhellach arnynt - ac yn bwysicaf, ar ffurf a chyfeiriad y dosbarthwr cymunedol sengl newydd sy'n cael ei greu o ganlyniad i uno'r Gronfa Gymdeithasol a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd.

Bydd copïau o'r Papur Gwyn yn cael eu dosbarthu i'r Aelodau pan fyddant ar gael a byddaf yn cyflwyno papur i'w drafod yn yr hydref.

**CYFARFOD Â S4C**
Ar 23 Mehefin cefais gyfarfod â Chadeirydd S4C, yr Athro Elan Closs Stephens, a'r Prif Weithredwr, Huw Jones. Roedd y cyfarfod yn gyfle i drafod materion o ddiddordeb cyffredin, gan gynnwys y Mesur Cyfathrebu a sut y mae gwaith S4C yn cyfrannu at yr agenda a osodwyd yn *Iaith Pawb.*

**BRIFF Y CYFARFOD LLAWN**

2 ddadl ar nofio a llyfrgelloedd

1 set o Gwestiynau Llafar

2 ddatganiad - Caerdydd Prifddinas Diwylliant a Chanolfan Mileniwm Cymru

**STRATEGAETH DDRAFFT CHWARAEON – DRINGO'N UWCH ("CLIMBING HIGHER")**
Cyflwynir hwn gerbron y Cyfarfod Llawn ar 15 Gorffennaf. Bydd ymgynghoriad cyhoeddus yn dechrau yn fuan wedi'r dyddiad hwnnw. Un o brif nodweddion y strategaeth fydd yr angen i godi'r lefelau o weithgareddau corfforol ymysg poblogaeth Cymru.

**Alun Pugh**
**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon**

**Enw cyswllt:-** Paul Massey, Is-adran y Celfyddydau, y Loteri a Chwaraeon, ffôn est. 5821

**Mae'r atodiad ar gael yn Seasneg yn unig**

Annex - **MINISTER'S VISITS FROM MAY – END JUNE 2003**

May

| | |
|---|---|
| 14 May | - Met Chinese Ambassador - Cardiff |
| 17 May | - Attend FA Cup Final - Cardiff |
| 19 May | - Open ACW Arts Conference - Swansea |
| | - Attend Arts and Business Awards - Cardiff |
| 20 May | - Launch Exhibition in National Museum - Cardiff |
| 21 May | - Attend Joseph parry Commemoration event - Cardiff |
| 25 May | - Minister attended Cardiff V QPR Div 2 Playoff Final - Cardiff |
| 26 May | - Minister attended Hay Festival - Hay |
| 27 May | - Urdd Eisteddfodd - Port Talbot |
| 28 May | - Launch of Summer of Golf - Newport |
| | - Launch Caravan Club International Games - Cardiff Bay |
| | - Attended Wales Open Gala Dinner - Newport |
| 29 May | - Minister attended Urdd Eisteddfod - Port Talbot |

June

| | |
|---|---|
| 2 June | - Minister launched Art and Design Week - Cardiff |
| 4 June | - Minister attended Production of Jephtha - Cardiff |
| 5 June | - Reception and Lunch for 2nd National Assembly |
| 7 June | - Attended Annual Welsh Premier League Awards as Guest Speaker Aberystwyth |
| 9 June | - Art and Design Black tie Dinner - Cardiff |
| 10 June | - Lunch Reception the Blair Years - Cardiff |
| 12 June | - Minister attended Venice Biennale - to launch Welsh Pavilion - Venice |
| 14 June | - Wales v England Cricket - Cardiff |
| | - Minister attended the Speedway Championship - Cardiff |
| | - TV interview with Sian |
| 24 June | - WMC Site Visit - Cardiff |
| 25 June | - Minister attended Ballet Russe - Cardiff |
| 26 June | - Minister attends Gower Golf Course - Gower |